# DINESYDD
## Chwefror

*PAPUR CYMRAEG*
*CAERDYDD A'R CYLCH*

**1979 Rhif 56**

# Ble'r ych chi Gyfeillion?

**Bore Sadwrn, Ionawr 20, 1979, cynhaliodd CYFEILLION Y THEATR GYMRAEG, CAERDYDD, eu cyfarfod blynyddol cyntaf. Gadewch i mi eich atgoffa......**

Tua blwyddyn yn ôl, gwahoddwyd nifer o ddinasyddion i'r Arena yn y Sherman i ystyried y syniad o gael **cyfeillion i'r theatr yn y ddinas,** math o gymdeithas, gyda phwyllgor (cadeirydd, trysorydd, ysgrifennydd, etc..) a fyddai'n medru rhoi hwb i'r theatr Gymraeg yn y ddinas. Disgwylid y byddai'r gymdeithas, ar ôl iddi hi gael ei ffurfio, yn anfon **gwybodaeth i bob aelod am bob** digwyddiad theatrig Cymraeg, ac roedd siarad hefyd am ofyn i'r gymdeithas drefnu ei gweithgareddau ei hun. Gyda brwdfrydedd mawr, aed ati i ddewis cnewyllyn o bwyllgor a gadael i hwnnw osod y gymdeithas ar ei thraed, gyda thâl blynyddol a chyfansoddiad a delfrydau lu.

Cyn pen dim amser, roedd ymron 300 wedi ymaelodi, a phopeth, i bob golwg, yn debyg o ddatblygu'n addwaol.

Yn y cwrdd bore Sadwrn, roeddem yn chwech - gan gynnwys tri swyddog. Ar wahân i un, thrafferthodd aelodau'r pwyllgor ddim anfon i ddweud na fedrent fod yno, a thrafferthodd y 300 (ymron) ddim i ddod. Na, i fod yn gyfansoddiadol gywir, dydy hi ddim yn iawn dweud, 300, achos dim ond ychydig dros ugain sy wedi ymaelodi y tymor hwn!

Fel y dywedodd y Cadeirydd yn ei adroddiad, roedd yr hen, hen afiechyd, Cardiffitis, wedi ymaflyd ym mhawb - ac roedd yn anodd i'r criw bach o chwech, wybod ble i droi.

"A bob yn gyfansoddiadol," meddai'r Cadeirydd, "does gyda ni ddim hawl gwneud dim. Does gyda ni ddim cworwm." Roedd yn iawn, wrth gwrs, ond gellid cyhoeddi angladd mewn anobaith llwyr.

Ond ni wnaed hynny. Penderfynwyd rhoi un cynnig arall ar gael cymdeithas gadarn ar ei thraed. Achos, fel yr eglurodd y Cadeirydd, dydy'r Gymdeithas, hyd yn hyn, ddim wedi bod yn **deyrngar iawn i'w phwyllgor. Trefnwyd noson yn Theatr Penfro** ar ddechrau Rhagfyr, perfformio dwy ddrama gan Yr Aelwyd. **Ychydig a ddaeth yno. Trefnwyd** "Hen galan" ar gyfer Ionawr 14eg o Ionawr, ond daeth y tywydd i chwalu'r noson honno. A dyw'r Swyddfa Bost, yn ôl pob golwg, ddim wedi gofalu fod pob llythyr i bob aelod wedi cyrraedd pen ei daith. Yn ôl y Cadeirydd, anfonwyd deg llythyr i bob aelod yn ystod y flwyddyn, ond mae **sawl aelod wedi cwyno na chafodd** fwy na dau neu dri ohonynt.

Ond mae'r gorffennol wedi'i gladdu. Beth am y dyfodol?

Yn fyr, yn gwbl groes i'r cyfansoddiad, tae ots! mae'r swyddogion am geisio sefydlu pwyllgor o rai sy'n debyg o fynychu'n rheolaidd a rhoi ysgwydd tan y baich. Deallwyd fod gwybodaeth wedi mynd yn hwyr i bwyllgorwyr yn y gorffennol am nifer o resymau a bod hyn wedi llesteirio brwdfrydedd amryw. Os ydych chi'n barod i barhau fel aelod o'r pwyllgor neu'n barod i ymaelodi â phwyllgor newydd, anfonwch wybod i Mr John Owen, Ysgol Uwchradd Rhydfelen, Pontypridd. Gwerthfawrogir pob cymorth.

A dyma'r gobaith am y dyfodol. Ac fe ellwch CHI helpu.

Gwyddom (trwy ddirgel ffyrdd, yr unig ffordd i ddod i wybod am sawl peth yng Nghaerdydd) fod posibilrwydd y bydd cwmni'r Eisteddfod (gynt) yn perfformio drama, fod drama ar y gweill yn Y Crwys ac yn Y Tabernacl, ac efallai yn Heol Minny. Gwyddom, hefyd, ei bod yn bosibl cael benthyg yr Arena ddechrau'r wythnos (Llun, Mawrth, Mercher) ar gyfer gweithgareddau Cymraeg. Nawr, os gall y gymdeithas drefnu mewn rhyw ffordd i gael rhywbeth dramatig bob mis, weithgarwch dramatig sy yn yr arfaeth, anfonwch wybod i'r Cadeirydd yn Rhydfelen.

Ond mae'r Cadeirydd yn gobeithio y bydd pob un ohonoch yn ailymaelodi ac y bydd nifer o aelodau newydd yn anfon eu harian i mewn. Dyna'r unig ffordd i sicrhau y bydd cynulleidfa bosibl gref yn gwybod am waith theatrig yn y ddinas.

# IE?

**DATGANOLI**

**Cyn hir, genir o'r gynnen — ein Senedd**
**Yn sianel i'n diben,**
**A chynnau o'r wreichionen**
**Fflam a dania Walia Wen.**

**Nid San Steffan**




HAUL! MAE'N RHAID IMI GAU'R YSGOL RHAG I'R PLANT BACH GAEL "SUN STROKE".

**Cysgu mâs yn y ddinas — tud. 8.**

## COFIWCH anfon cynrychiolydd i gyfarfod pwysig o'r Cymdeithasau yn Festri Heol y Crwys, Nos Sul, Mawrth 4ydd, am 8.15.

**Rhifyn nesa — deunydd erbyn Mawrth 3ydd, fan bella i'r Golygydd, 121 Heol Connaught, Parc y Rhath.**

# COFIWCH anfon cynrychiolydd i gyfarfod pwysig o'r Cymdeithasau yn Festri Heol y Crwys, Nos Sul, Mawrth 4ydd, am 8.15.

Am roi pwt o newyddion - ar unwaith - i'ch papur lleol.
Ffoniwch un o'r canlynol yn ddi-oed:-
Shân Emlyn - 751469
Gwyn Lewis Davies - 756882
E. Gunston Jones - 499469.

# O'R POST

**Annwyl Olygydd,**

**Yn rhifyn Rhagfyr o'r *Dinesydd* ymddangosodd erthygl ddiddorol am siop 'Pethau Cain'. Yn anffodus cyfeiria'r erthygl ataf fel 'perchennog y siop'. Mae hyn yn hollol anghywir. Prif symbylydd y fentr oedd Mrs Anne-Marie Petty, Llandaf, a bum yn rhedeg y siop gyda hi, mewn partneriaeth.**

**Hoffwn egluro mae nid myfi a ysgrifennodd yr erthygl, ac yn wir ni wyddwn am ei chynwys hyd yr ymddangosodd rhifyn Rhagfyr o'r *Dinesydd*.**

**Yr eiddoch,**
**Yn gywir,**
**MAIR JONES.**

# Y CALENDR

MAWRTH

Y Gadwyn, Cymdeithas Eglwys Salem, Canton. 7.30 p.m. Cinio Gŵyl Ddewi. Gwesteion; Y Parch a Mrs T.J. Davies.

2. Cymdeithas Heol y Crwys yn dathlu Gŵyl Ddewi. Gŵr gwadd: Ei Anrhydedd y Barnwr Dewi Watcyn Powell

6. Capel Minny St. 8.0.p.m. Cyngerdd gan Gôr y Swyddfa Gymreig. Arweinydd: Alun Davies. Unawdwyr: Sybil Bevan, Eleri Evans, Iwan Guy, Arwel Peleg Williams.

7. Dathlu Gŵyl Ddewi gyda'r Dysgwyr dros ffioled o Gawl Cennin.

8. Clwb Cinio Merched Caerdydd. 'Ye Olde Wine Shoppe' am 8.00 p.m. Siaradwr: Gwyn Erfyl

10. Côr Tabernacl yn perfformio "Dewi Sant" (Arwel Hughes) a gweithiau eraill 7.15p.m.

18. Heol y Crwys. Gymanfa Ganu. 10.30, 2.30 a 6.00 o'r gloch. Arweinydd: Mrs Nansi Richards, Treforus.

24. Cyngerdd gan Gôr Dowlais yn Neuadd y Ddinas. Yr elw tuag at Ysgol Feithrin y Waun.

MAI

11. Ysgol Feithrin y Waun. Noson Gymdeithasol yn Nhŷ Maeth. (Dyddiad anghywir yn rhifyn Ionawr y Dinesydd — sori.)

12 7.30 pm. Dau gyngerdd gan Gôr Philarmonic Caerdydd.
13 8.0 p.m. Arweinydd: Alun Guy. Neuadd Gyngerdd y Brifysgol, Heol Corbett.

**OS OES DYDDIAD GENNYCH CHI I'R CALENDAR CANOLOG FFONIWCH MALLT ANDERSON — CAERDYDD 753695.**

# Oes gennych chi gwestiynau?

**GWESTIWN 1: Ar ôl imi farw hoffwn gyfrannu fy arennau, ac o bosibl rannau eraill o'm corff, i'w defnyddio i'w trawsblannu neu fel defnydd ymchwil meddygol. Beth ddylwn wneud i sicrhau fod fy nymuniad yn cael ei gyflawni?**

ATEB: Mynnwch gerdyn Cyfrannwyr Arenau (Kidney Donor), llenwch hi gyda'r manylion angenrheidiol. Cewch y cardiau hyn o'r ysbyty neu o amryw swyddfeydd cyhoeddus, neu, efallai, oddiwrth eich meddyg teulu. Ynghylch y rhannau eraill o'ch corff - gwnewch ewyllus a nodwch ynddi yn glir beth yw eich dymuniad. Gan fod rhaid symud yr organnau mewn byr amser ar ôl marw mae'n bwysig i chi roi gwybod i'r 'executors' am eich bwriad, ac o bosibl ddweud wrth eich meddyg. Syniad da fyddai i chi gario rhyw fath o ewyllys 'mini' wedi ei llofnodi gennych chi a thyst. Mae'n ofynnol (yn ôl y ddeddf) i'ch teulu agosaf roi eu caniatad nhw, hwnnw hefyd wedi ei lofnodi a chariwch hwn hefyd gyda chi bob amser. Mae hyn yn gallu lleihau poen teuluoedd ar adeg anodd. Yn fyr felly - carden cyfrannu arennau; a dau nodyn - eich un chi a un eich teulu, cariwch nhw bob amser, a dyna chi wedi gwneud a ellir rhag blaen.

**GWESTIWN 2: A fyddai o fantais petawn i'n gwybod i ba Grwp gwaed rwy'n perthyn fel fy mod yn gallu cael trawslyfiad (transfusion) heb oedi petawn yn cael damwain.**

ATEB: Na fyddai. Mae'n hollol anghyfrifol rhoi trawslyfiad gwaed i neb heb, yn gyntaf sicrhau fod eich gwaed chi a'r gwaed y bwriedir ei roi i chi yn cyd-weddu ymhob ffordd. Fydde'r un meddyg yn derbyn y wybodaeth hon oddiar ddarn o bapur neu ddisc o gylch eich gwddf. Os ydych yn dioddef oddiwrth rhyw salwch fel diabetes, epilepsy neu sensitifrwydd i gyffuriau (megys penicillin) yna gellwch gael disc fach arbennig at y pwrpas o nodi hyn. Dyma'r math o wybodaeth a all fod o help. Mynnwch air â'ch meddyg teulu.

# Penblwydd Tin Tin

**Ionawr 1979 yw hannercanmlwyddiant TINTIN, y ditectif ifanc a enwogwyd gan y stribedi cartŵn o waith Hergé.**

Ymddangosodd Tintin gyntaf yn y cylchgrawn Belg "Le Petit Vingtième" yn 1929. Oddi ar hynny mae 23 llyfr amdano wedi ymddangos yn y Ffrangeg gwreiddiol. Fe'u troswyd i dros 25 o ieithoedd, a gwerthwyd 55 miliwn o gopïau trwy'r byd.

Mae Tintin, gyda'i ffrindiau ffyddlon Smwt (y ci), Capten Hadog (y morwr llidiog), Dr. Odfan Penchwiban (y gwyddonydd athrylithgar a byddar), a Johns a Johns (y ddau dditectif trychinebus), wedi ymddangos hyd yma mewn dwy gyfrol Gymraeg, ac mae un arall ar y gweill. Yn sgil y llwyddiant a ddaeth i ran y ddau lyfr cyntaf, a gyhoeddwyd y llynedd, bwriedir parhau â'r gyfres am amser maith i ddod.

Y ddau lyfr a ymddangosodd yn barod yw:
*Y Cranc â'r Crafangau Aur*
*Cyfrinach yr Uncorn*
Troswyd y ddau o'r Ffrangeg gan Roger Boore.

Cyhoeddwyd gan Wasg y Dref Wen, pris £2.10 yr un.

Y gyfrol sy ar y gweill yw *Trysor Rackham Goch*, a gyhoeddir eleni.

Am fanylion pellach cysyllter â:
Roger Boore
Gwasg y Dref Wen
28 Church Road
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
Ffôn: Caerdydd 617860.

# Hysbysebion Colofn Personol

YN EISIAU — Merch i rannu fflat — 47 Ffordd Llandaf. Ystafell wely i'w hunan. Ffoniwch 587902 rhwng 5 a 7 o'r gloch.

YN EISIAU — Dwy ferch i rannu ystafell mewn tŷ gyda dwy arall. Ardal Whitchurch Road. Ffoniwch Caerdydd 29297 ar ôl 5.00 o'r gloch.

**LLONGYFARCHIADAU i Pwt a Delyth ar eu priodas ar yr 17eg o fis Chwefror. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.**

# At y Cymdeithasau

**Ymhen ychydig fisoedd bydd gan y ddinas hon ei gorsaf radio ei hun. Ar hyn o bryd y mae nifer o gwmniau yn ceisio sicrhau'r hawl i sefydlu a rhedeg yr orsaf honno. Yr Awdurdod Darlledu Annibynnol a fydd yn penderfynu eu tynged.**

Nid yw o dragwyddol bwys pa gwmni a enilla'r drwydded ond y MAE o bwys bod pob cwmni yn fyw iawn i'r ffaith y dylai gorsaf radio o'r fath adlewyrchu yn effeithiol, yn wir, gyfnerthu a hybu yn gadarnhaol, weithgaredd a buddiannau yr iath Gymraeg yn y rhan hon o Gymru. O ganlyniad, y mae'n DDYLETSWYDD ar bob Cymdeithas Gymraeg yn y cylch i bwyso ar yr Awdurdod Darlledu Annibynnol i ofalu bod gan bob cwmni sy'n dod ger ei fron bolisi Cymraeg pendant a grymus. 'Wnaiff hi mo'r tro i oddef trefnu rhaglenni Cymraeg fel rhyw fath ar niwsans angenrheidiol.

Gyda hyn mewn golwg, buddiol a fyddai anfon datganiad i'r Awdurdod Darlledu Annibynnol, yn enw holl Gymdeithasau Cymraeg Caerdydd a'r cylch, yn tynnu ei sylw at yr amod sylfaenol. Wedi hynny, pa gwmni bynnag a lwydda i sicrhau'r drwydded, bydd yn rhaid cadw golwg arno a mynnu ei fod yn gweithredu'n unol â'r un amod. Y ffordd effeithiolaf o wneud hynny fydd ffurfio pwyllgor gwarchod-a-gwylio, yn cynrychioli'r Cymdeithasau Cymraeg.

Ond, y peth cyntaf i'w wneud yw llunio ac anfon datganiad at yr Awdurod Darlledu Annibynnol. A fydd pob un o Gymdeithasau Cymraeg y cylch cystal â dewis cynrychiolydd ar gyfer cyfarfod byr a gynhelir ar nos Sul, **Mawrth 4, am 8.15,** yn festri Capel Heol y Crwys, er mwyn ystyried llunio ac arwyddo datganiad o'r fath? Gellid hefyd yr un noson o bosib, penodi pwyllgor gwarchod-a-gwylio ar gyfer y dyfodol.

# Côr Philarmonic Caerdydd

**Mae Côr Eisteddfod Caerdydd yn fyw eto dan enw newydd - 'Philharmonic Caerdydd'.**

**Sefydlwyd y Côr yn wreiddiol mwy na dwy flynedd yn ôl i ganu yng nghyngerdd y Cyhoeddiad ym 1977 ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol, 1978. Roedd ei berfformiad o 'Wledd Belsasar' ym Mhentwyn yn ymdrech ardderchog i feistroli un o'r gweithiau anhawsaf ym myd cerdd gorawl gyfoesol.**

Mae gan y Côr newydd 130 o aelodau a chynhelir ei gyngerdd gyntaf Mis Mai nesaf pan genir detholiad o weithiau byr gan gyfansoddwyr Cymreig i'w ddilyn gan yr Offeren Rhif 3 yn F leiaf gan Bruckner.

Arweinir y Côr gan Alun Guy a fydd hefyd yn gadeirydd a chorfeistr iddo a chaiff Mr. Guy ei gynorthwyo gan Miss Eilonwy Jenkins.

Y cyfeilyddion yw Miss Nia Wyn Williams a Mr. David Hamley.

# *Whiw!*

# *Ond ydy o'n fyw?*

**Bydd Hywel Gwynfryn bob amser yn fy neffro ac yn fy sirioli yn y boreau cyn mynd i'r ysgol. Ond bore dydd Mercher croesewais ei lais rhadlon yn fwy nag arfer. "Ysgol Gyfun Llanhari ar gau heddiw!" Diwrnod arall o loetran a diogi adref.**

Ond dyma lais awdurdodol Mam yn fy ngorfodi i fynd i Erddi Soffia i weld Mistar Urdd. Doedd meddwl am fynd allan i'r oerfel i neuadd fawr, a fyddai fwy na thebyg yn wag o dan amgylchiadau'r tywydd, ddim yn apelio'n fawr ataf.

Er syndod i mi, a llawer o rai eraill, cam-dybiaeth oedd y neuadd wag. Er gwaetha'r tywydd, roedd plant o bob oedran yn tyrru'n eiddgar i'r neuadd i gael gweld Mistar Urdd yn y cnawd.

Cawsom adloniant difyr i'n diddanu. Ie, yr hen ffefryn Hywel Gwynfryn oedd wrthi'n ddeheuig yn cadw pawb a oedd yn ysu am gael gweld Mistar Urdd dan reolaeth. Cawsom swn trydanol Crysbas a'u caneuon diweddaraf a thîm Goglis. Llwyddodd criw Goglis i ddenu gwên ar wyneb yr Arglwydd Faer er nad oedd yn deall gair! Roeddwn i a'm ffrind yn falch iawn o weld y Troellwr Disgiau, Richard Rees yno yn eistedd o'n blaenau.

Roedd yno lu o gefnogwyr tîm pel droed Wrecsam. Efallai ei fod yn fwy o wefr iddyn nhw weld Dai Davies na Mistar Urdd! A dyma ni yn dod at uchafbwynt y prynhawn; ie Mistar Urdd yn cyrraedd mewn Range Rover gwyn. A dyna i chi ffigwr hoffus a doniol. Ei freichiau trwsgwl yn chwifio yn afreolus a'r wên ar ei wyneb yn gwneud i mi eisiau ei fwytho. Nid fi oedd yr unig un a deimlai fel hyn. Cyffrous iawn oedd gweld Mistar Urdd yn dawnsio i'w gân ei hun.

**Prynhawn arbennig iawn oedd hwn — y prynhawn y darganfyddais fy uchelgais. Hoffwn gwrdd â Mistar Urdd, wyneb yn wyneb mewn stryd gul, dywyll!**




# Codi Stêm i'r Urdd!

**Trên i Lundain er mwyn helpu'r Urdd. Trefnir gan Bwllgor Sir Gwent o Urdd Gobaith Cymru.**

Gadael Caerdydd 8.30 a.m.

Casnewydd 8.45 a.m.

Gadael Paddington 19.35

Cyrraedd Caerdydd 22.00

Cost £4 i oedolion/£3 i blant.

Manylion a thocynnau oddi wrth -Alwyn Jones, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy. (Caerdydd 36201)

AWDURDOD DARLLEDU ANNIBYNNOL

IBA

**CYFARFOD CYHOEDDUS**

RADIO LLEOL ANNIBYNNOL I GAERDYDD

**Beth yw'r anghenion?**

Dewch i'w trafod

yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd

am 6.00pm ar ddydd Llun 5 Mawrth

*Mynediad trwy docyn*

Tocynnau ar gael oddiwrth (Erbyn dydd Mercher 28 Chwefror)

Mr L.J. Evans
Swyddog dros Gymru
Arlbee House
Greyfriars Place
Caerdydd

# Llyfrau

## *Afiaith yng Ngwent*

*- Gwasg Prifysgol Cymru....£4.95*

**Mae Mrs Mair Elvet Thomas, awdur y llyfr uchod, wedi gwneud cymwynas fawr â llu o ddarllenwyr wrth gyhoeddi ei gwaith ymchwil ar "Hanes Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni 1833-54". Fe ddywedir yn y Rhagair "Mwynglawdd o wybodaeth sydd yma am Gymdeithas Cymreigyddion fwyaf nodedig ail chwarter y ganrif ddiwethaf". A dyna'r union air — mwynglawdd — oblegid fe gasglwyd cruglwyth o ffeithiau gyda manylder a thrylwyredd anghyffredin. At hynny, fe adroddir yr hanes am y Gymdeithas, am yr arweinwyr blaenllaw ac am y rhamant a berthyn i'r cyfan mewn arddul gyhyrog, syml.**

Fe ddangosir fel y profwyd afiaith Gymraeg a Chymreig yn ardal y Fenni yng Ngwent a mynegir rhyfeddod fod y fath Gymdeithas wedi ffynnu yno. Fe'i sefydlwyd "er coleddu yr iaith Gymraeg" gan ddynion o'r cylch, a thrwy hynny, cychwyn mudiad a fyddai'n hybu ysgolheictod ac yn peri adfywiad llenyddol yng Nghymru. Tri o bobl dylanwadol a fu'n llywio'r gweithgareddau ac yn sicrhau'r llwyddiant, sef Caradaw , yr ysgrifennydd cyntaf, Carnhuanawc, clerigwr, hanesydd a gŵr hirben a Gwenynen Gwent (Arglwyddes Llanofer) a ddylanwadodd gymaint ar uchelwyr a boneddigion i'w denu i'r Eisteddfodau ac i'w cefnogi a'u harian.

Ar ôl adrodd hanes diddorol cychwyn y Gymdeithas a'r Eisteddfodau lliwgar — y cystadlu barddonol a cherddorol - eir ymlaen i drafod gwaith y beirdd cyn dod at y traethodau a wobrwywyd (gan gynnwys casgliad gwerthfawr Maria Jones Williams o alawon Gwerin Cymraeg). Pennod bwysig iawn yw'r un am Thomas Stephens a'i draethawd enwog ar "The Literature of the Kymry". Ceir ymdriniaeth lawn ar fywyd a chyfraniad Carnhuanawc a'i gysylltiad â Llydaw, a'i gyfeillgarwch â'r Llydawyr Francois 'Roi a la Villamarque'. Mae Gwenynen Gwent hefyd yn teilyngu pennod iddi hi ei hun a dangosir dyled Cymru i lys Llanofer ac i frwdfrydedd heintus y wraig unigryw hon. Drwy eu hymdrechion hwy a chefnogaeth gwŷr adnabyddus, am gyfnod o ugain mlynedd, fe grewyd adfywiad a brwdfrydedd anhygoel ym mywyd yr ardal a chafwyd, yn wir, "afiaith yng Ngwent". Y mae'r cyfan yn stori ramantus yn werth ei chroniclo ac, yn sicr, yn werth ei darllen.

# Y Dref Wen eto.

**Pan ddaw 'Biggins y Yard' i bentref mynyddig Bryncoed i ymchwilio llofruddiaeth Eli Jenkins, 'does ganddo'r un rheswm dros gredu nad achos syml arall fydd hwn.**

Ond nid yw eto yn nabod trigolion Bryncoed; pobol fel Jones yr Arch, Owen y Tafarnwr - perchennog y Bryncoed Arms - a Siân Morris, gweddw sydd yn glebren o'r radd flaenaf, ac eraill; y cyfan fel petaent yn benderfynol o rwystro a chamarwain cynrychiolydd cyfraith Loegr yn eu mysg. Oherwydd mae gan bobol Bryncoed eu syniadau eu hunain am y llofrudd a barn gref iawn am amhriodoldeb ei ffawd.

Y triciau camarweiniol a'r siarad cellweirus a ddefnyddir ganddynt i ddrysu'r ditectif yw sail llawer iawn o'r hiwmor cyfoethog sy'n byrlymu drwy'r stori.

Yn y diwedd, gellir gofyn ai cyfraith Loegr ynteu cyfraith Bryncoed a enillodd y dydd.

*CYSGOD YN Y DYFFRYN*

*W.H. Boore/Mary Jones*

## BLE'R AETH SHAKIN JENKINS?

**Yr ateb yw fod Shakin eisoes yn gweithio yn Hi-fi Markets, Morgan Arcade, Caerdydd. Gofynnwch am Mr Jenkins. Ond ble mae ei grwp, 'Yr Arian Byw'? Yr ateb = mae Gareth Hughes, Owen Lewis, Dafydd Saer, Rhys Powys a Gari Prysor wedi ffurfio'r grwp Syr Goronwy.**

**Mae'r DINESYDD, dan gost enfawr, wedi llwyddo i gael gafael ar Gareth Hughes arweinydd Syr Goronwy.**

**"Bu 1978 yn flwyddyn dda iawn i'r grŵp hyrwyddwyd ein gyrfa gan ymddangosiad llwyddianus mewn llefydd megis Top Ranc, Caerdydd, ac yn ddiweddar ar SEREN WIB gydag Arfan Haines Davies."**

**Diddorol iawn, Gareth. Ond beth am y dyfodol?**

**"Wel, mae Gwyn, gitarydd SHWN wedi bod yn chwarae gyda ni ar nifer o achlysuron ac mae'n amlwg yn ei hystyried hi'n fraint i gael gwneud hynny. Ni all ymaelodi â ni wrth gwrs am ei fod yn aelod o SHWN".**

**Ydych chi'n cyfansoddi caneuon eich hunain?**

**"Dafydd a minnau sy'n cyfansoddi'r deunudd mawr, ond yn y gorffennol roedd pobl eraill yn cyfansoddi drosom ni, pobl fel....Brân, Geraint Jarman, Dafydd Pierce, Y Llygod Ffyrnig, Edward H. Chwys, Grace Williams....pobl felly".**

**Diolch yn fawr Gareth. Nid oedd yn gallu rhoi mwy o'i amser, yn anffodus gan fod y grŵp yn brysur yn ymarfer.**



*O'r dde i'r chwith.... Rhys Powys, Dafydd Saer, Gari Prysor, Owen Lewis a Gareth 'Stanley Clarke' Hughes*

# Canu'n y Swyddfa Gymreig

CÔR Y SWYDDFA GYMREIG

**Er pan grewyd y Gwasanaeth Suful modern ym 1870 y mae'r staff mewn llawer o swyddfeydd y Llywodraeth wedi sefydlu eu corau eu hunain gyda chefnogaeth yr Adrannau. O'r rhain y côr mwyaf adnabyddus oedd Cantorion y Bwrdd Masnach, ond fe geid, wrth gwrs, lawer o rai eraill.**

Cyflogir y mwyafrif o'r gwasanaethyddion suful sy'n gweithio yng Nghaerdydd a'r ardaloedd amgylchynol gan y Swyddfa Gymreig, ar wahân i'r rheiny sydd yn gweithio gyda'r Dreth Incwm. Er bod y Swyddfa Gymreig wedi cael ei sefydlu ym 1964 ni ffurfiwyd côr yno tan Hydref 1977. Cyd- ddigwyddiad oedd fod Alun Davies, arweinydd Côr llwyddiannus iawn Cymdeithas Cymry Llundain, yn cael ei drosglwyddo o Lundain i Gymru.

Y mae Mr Davies yn adnabyddus iawn trwy Gymru benbaladr fel arweinydd cymanfaoedd canu ac fel un o olygyddion detholiad Cymanfaoedd Canu yr Annibynnwyr a gyhoeddir bob dwy flynedd. Y mae'n aelod o gapel Minny Street, lle mae'n arwain y Côr, a hefyd yn un o olygyddion Caniedydd yr Ifanc, y llyfr emynau a thonau fydd yn cymryd lle Caniedydd Newydd yr Ysgol Sul yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Cynhwysir yn y Côr bobl o bob gradd o'r gwahanol is-adrannau yn y Swyddfa Gymreig. Cynhelir ymarferiadau bob nos Fawrth am 7.30 o'r gloch yng Nghapel Minny Street. Croesewir hefyd berthnasau'r staff fel aelodau, ynghŷd â staff Adrannau eraill y Llywodraeth yng Nghaerdydd.

Er gwaetha'r ffaith nad yw llawer o aelodau'r Côr yn rhugl yn y Gymraeg y mae i gerddoriaeth draddodiadol Gymraeg le amlwg yn rhestr y darnau a genir. Cymerodd y Côr ran yng Ngŵyl Flynyddol y Naw Llith gyda charolau a gyflwynir bob blwyddyn gan y Swyddfa Gymreig yn Eglwys Sant Ioan ac y mae hyn wedi sicrhau fod y rhaglen yn cynnwys rhai o'r carolau urddasol Cymraeg traddodiadol. Saif y rhain gyda'r gorau yn Ewrop i gyd.

Bydd cyfle i bawb ein clywed ar y 6ed o Fawrth yng Nghapel Minny Street (8 p.m.) Y prif ddarn yn yn cyngerdd fydd yr "Heilige messe" gan Haydn. Ymhlith yr unawdwyr bydd y tîm adnabyddus o Grucywel - Eleri ac Arwel Peleg Williams, a hefyd Sybil Bevan ac Iwan Guy. Gavin Parry fydd yn cyfeilio. *(Gweler y Calendr)*

Dyma Swyddogion y Côr: David Evans (Cadeirydd), Gareth Evans (Is-Gadeirydd), Tony Hopkins (Trysorydd), Margaret McCabe (Ysgrifennydd). Pob ymholiad i'r Ysgrifennydd - Y Swyddfa Gymreig, Parc Cathays, Caerdydd. (FFON: 28066, est.

# O'r Ganolfan

## ADRAN DOSBARTH CAERDYDD

Bu ymateb ffafriol eleni eto i'r gweithgareddau a drefnir ar gyfer ysgolion cynradd y ddinas. Mae'r adrannau yn cyfarfod unwaith bob pythefnos, ar nos Lun rhwng hanner awr wedi pedwar a chwarter i chwech. Mae'r plant wrth eu bodd gyda'r amrywiol weithgareddau a gynnigir iddynt, a mawr yw'r hwyl a gânt wrth ymweld â'r siop ar ddiwedd pob sesiwn.

## UWCH ADRAN

**Eleni, gydag agor Ysgol Uwchradd Llandâf, mae'r nifer sydd yn mynychu'r Uwch-adran wedi chwyddo unwaith eto. Mae'r adran yn cyfarfod bob nos Lun rhwng 6.30-9.00 ac yn cynnig dewis helaeth o weithgareddau.**

Ar nos Fawrth, mae Uwch-adran i ddysgwyr yn cyfarfod rhwng 6.30 - 8.30 dan arweiniad Mr. Tudor Williams, a **gyda chymorth nifer o athrawon.** Am yr awr gyntaf torrir i fyny i grwpiau bach ar gyfer gwers Gymraeg anffurfiol, ac wedyn ceir gweithgaredd arbennig, e.e. disgo, gemau, ac yn y blaen. Mae **hyd at 90 o bobl ifanc 14 a 15 oed yn** mynychu'r noson.

## Y CÔR

**Cafwyd cyfarfod blynyddol y Côr nos Iau, Chwefror 1af ac** etholwyd y swyddogion canlynol:

Cadeirydd -Huw Williams
Ysgrifennydd -Siân Piper
Trysorydd -Wyn Jones

Cymdeithas Cefnogwyr. Dyma restr o'r ennillwyr:

Medi

1af rhif 6
2il rhif 27
3ydd rhif 40

Hydref

1af rhif 24
2il rhif 41
3ydd rhif 2

Tachwedd

1af rhif 27
2il rhif 24
3ydd rhif 19

Rhagfyr

1af rhif 41
2il rhif 9
3ydd rhif 27

## YR ADEILAD

**Cafwyd sesiwn da iawn o lanhau'r Ganolfan ar fore Sadwrn, Ionawr 27, gyda chriw da o bobol yn dod i helpu. Yn y dyfodol agos, bydd gwaith yn mynd ymlaen yn y Ganolfan fydd yn costio oddeutu £1,000 (ail wneud y grisiau, llawr y neuadd, ffenestri, tamprwydd, ac yn y blaen). Mae llawer o waith arall i'w wneud, megis paentio ac fe fydd sesiynau yn cael eu trefnu i wirfoddolwyr wneud rhan o'r gwaith er mwyn arbed arian. Byddai cymorth arbenigwyr megis saer coed, paentiwr, plymiwr, (Beth amdani Mici? — gol.) ac yn y blaen yn ddefnyddiol dros ben. Felly os oes gennych awr i sbario, beth am alw draw am sgwrs?**

## SIOP

Unwaith eto, apeliwn am bobol i weithio awr neu ddwy yn y siop er mwyn ysgafnhau'r baich ar yr ychydig sydd yno ar hyn o bryd. Yn sicr mae'r siop yn ffynhonnell werthfawr o arian i'r Ganolfan, ond mae hefyd yn cynnig cyfle gwerthfawr i'r dysgwyr ddod at eu gilydd i sgwrsio yn anffurfiol.



HTV
CYMRU WALES

TEIPYDD/LLAWFER

Croesawir ceisiadau am swydd teipydd/llawfer yn yr Adran Gysylltiadau Gyhoeddus yng Nghaerdydd. Dylai'r ymgeiswyr fod yn rhugl yn y Gymraeg. Y mae'r gwaith yn amrywiol a diddorol ac mae gofyn am allu teipio a llawfer o'r radd flaenaf. Dylai'r ymgeisydd llwyddianus fod a phersonoliaeth ddymunol llawn bywyd.

Dylai'r ymgeiswyr (mab neu ferch) yrru am ffurflen gais, yn cynnwys amlen wedi ei chyfeirio (nid oed angen stamp) at:-

Y Swyddog Staffio,
HTV Cymru/Wales,
Y Ganolfan Deledu,
Caerdydd CF1 9XL.

# Cwis Mawr y Refferendwm

Beth am roi cynnig ar y cwestiynau hyn? Fe gewch farc am bob ateb cywir yn adrannau A-E. Rhoir hyd at ddau farc yr un am atebion cywir yn adran F. Felly mae modd ennill 50 i gyd.

★★★★★★★★★★★★★★★★★★

### ADRAN A: HANES CYMRU

Beth yw pwysigrwydd y dyddiadau hyn yn hanes Cymru, ac ym mherthynas Cymru a Lloegr?

1. 1282
2. 1404
3. 1485
4. 1536
5. 1964

★★★★★★★★★★★★★★★★★★

### ADRAN B: CYMRU A PHRYDAIN HEDDIW

6. Beth yw poblogaeth Cymru?
7. Beth yw poblogaeth y Deyrnas Unedig?
8. Faint y cant o bobl Cymru sy'n ddi-waith? Dewiswch un o'r tri ateb: 4%, 6%, 8%.
9. Beth yw incwm y pen ar gyfartaledd yng Nghymru heddiw? Dewiswch un o'r tri ateb: £1,756, £1,682, £1,525.
10. Sawl milltir o draffordd sydd yng Nghymru? Dewiswch un o'r tri ateb: 590, 250, 59.

★★★★★★★★★★★★★★★★★★

### ADRAN C: LLYWODRAETH PRYDAIN A LLYWODRAETH CYMRU

11. Faint o aelodau sydd yn Nhŷ'r Cyffredin?
12. Faint sydd o Gymru?
13. Faint o amser Tŷ'r Cyffredin a neilltuir yn swyddogol mewn blwyddyn i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd Cymru?
14. Beth yw'r Uwch-Bwyllgor Cymreig?
15. A ellir siarad Cymraeg yn Nhŷ'r Cyffredin?

★★★★★★★★★★★★★★★★★★

### ADRAN CH: Y SWYDDFA GYMREIG

16. Pwy oedd Ysgrifennydd cyntaf Cymru?
17. Sawl Ysgrifennydd Cymru sydd wedi bod?
18. Pa rai o'r meysydd hyn sy'n gyfrifoldebau'r Swyddfa Gymreig: Tai, Llywodraeth Leol, Iechyd, Addysg Gynradd, Addysg Uwchradd, Ffyrdd, Amaethyddiaeth?
19. Faint yw gwariant y Swyddfa Gymreig yn flynyddol? Dewiswch un o'r tri ateb: Deng miliwn o bunnau, Cant a hanner o filiynau o bunnau, Dros fil o filiynau o bunnau.
20. Faint o'r cyrff hyn sydd â'u haelodau'n cael eu hethol yn uniongyrchol gan bobl Cymru: Corfforaeth Ddadblygu Cymru, Awdurdod Tir Cymru, Awdurdod Dŵr Cymru, yr Awdurdodau Iechyd Rhanbarthol?

### ADRAN D: Y DDAU GYNULLIAD

21. Sawl aelod fydd yn y Cynulliad Cymreig?
22. A fyddant yn derbyn tâl?
23. A fydd dull eu hethol mewn rhyw ffordd yn wahanol i ddull ethol aelodau i Westminster?
24. A all yr un person fod yn aelod o'r Cynulliad ac o Dŷ'r Cyffredin?
25. A fydd gan y Cynulliad Cymreig hawl i basio deddfau?
26. A fydd gan Gynulliad yr Alban yr hawl hon?
27. A fydd yna 'Brif Weinidog' Cymreig?
28. A fydd yna 'Gabinet' Cymreig?
29. Faint o weision gwladol a fydd eu hangen o'r newydd pan sefydlir y Cynulliad? Dewiswch un o'r tri ateb: 100,000, 45,000, 1,100.
30. Dros ba rai o'r meysydd hyn y bydd gan y Cynulliad Cymreig hawliau: Addysg Gynradd, Amddiffyn, Tai, Amaethyddiaeth, Mewnfudiad, Llywodraeth Leol, Treth Incwm?

★★★★★★★★★★★★★★★★★★

### ADRAN DD: EFFEITHIAU'R NEWID

31. A effeithir mewn unrhyw ffordd ar safle a swyddogaeth y Frenhines?
32. A fydd y Swyddfa Gymreig ac Ysgrifennydd Cymru'n dal mewn bod?
33. A fydd yna ryw newid yn rhif yr A.S.'au Cymreig yn Westminster?
34. A fydd 'Grant Cynnal y Trethi' i awdurdodau lleol ar gael fel o'r blaen?
35. Sut y bydd y Cynulliad Cymreig yn cael ei arian, a beth (yn ôl yr amcan diweddaraf) a fydd cost rhedeg y Cynulliad yn flynyddol?

★★★★★★★★★★★★★★★★★★

### ADRAN E: PRYDAIN A'R CYFANSODDIAD

36. Beth yw oed y Deyrnas Unedig ar ei ffurf bresennol?
37. Pwy oedd y Brenin cyntaf neu'r Frenhines gyntaf i deyrnasu dros 'Brydain Fawr'?
38. Cynrychiolir Lloegr, yr Alban ac Iwerddon ar yr Union Jack. Pam na chynrychiolir Cymru?
39. Sonnir o hyd am 'British Subject', 'British Passport', 'British Rail' a 'British Steel', ond nid 'British Law'. Pam?
40. Os oes gennych chi 'P.C.' *o flaen* eich enw, plisman ydych chi. Os oes gennych chi 'P.C.' *ar ôl* eich enw, beth ydych chi?

★★★★★★★★★★★★★★★★★

### ADRAN F: CYWIR AI ANGHYWIR?

Pa rai o'r gosodiadau hyn sy'n gywir? Meddyliwch yn ofalus. Ceisiwch roi, nid yr ateb yr hoffech chi iddo fod yn wir, ond yr ateb sy'n ffeithiol a rhesymegol gywir. A rhowch reswm dros eich ateb — cewch ail farc am hwnnw.

41. 'Y mae Cymru'n rhan o Loegr.'
42. 'Y mae yna'r fath beth â chenedl Brydeinig.'
43. 'Y mae yna'r fath beth yn gyfreithiol â 'Dinesydd Prydeinig' ('British Citizen').'
44. 'Gall rhywun nad oes ganddo ond tŷ haf yng Nghymru bleidleisio yn y refferendwm ar Fawrth 1.'
45. 'Ar ôl datganoli, Llundain fydd â'r gair olaf o hyd.'

# *ATEBION*

## ADRAN A

1. Lladd Llywelyn yr Ail ('Ein Llyw Olaf' fel y gelwir ef), a cholli annibyniaeth Cymru.
2. Owain Glyn Dŵr, Tywysog Cymru, yn cyhoeddi ei Senedd ym Machynlleth.
3. Brwydr Bosworth. Harri Tudur, drwy drechu Richard III, yn dod yn frenin Lloegr (Harri VII).
4. Deddf Uno Cymru a Lloegr.
5. Sefydlu'r Swyddfa Gymreig, a chychwyn datganoli effeithiol i Gymru.

★★★★★★★★★★★★★★★★★★

## ADRAN B

6. Tua dwy filiwn a thri chwarter (2,750,000).
7. Tua thrigain miliwn (60,000,000).
8. 8% (o'i gymharu â 5.9% dros Brydain, a 4.1% yn Ne-ddwyrain Lloegr).
9. £1,525 (£1,756 yn Lloegr).
10. 59.

★★★★★★★★★★★★★★★★★★

## ADRAN C

11. 635.
12. 36.
13. Un pnawn.
14. Yr holl Aelodau Seneddol Cymreig yn cyfarfod gyda'i gilydd, ryw dair neu bedair gwaith y flwyddyn, i drafod materion ac i holi gweinidogion. Nid oes ganddo ddim grym o gwbl.
15. Na ellir.

★★★★★★★★★★★★★★★★★★

## ADRAN CH

16. James Griffiths.
17. Pump.
18. Y cyfan.
19. Dros fil o filiynau.
20. Dim un.

★★★★★★★★★★★★★★★★★★

## ADRAN D

21. 80.
22. Byddant.
23. Na fydd, ac eithrio y bydd dau aelod dros bob etholaeth. 'Un dyn, un bleidlais' fydd hi yr un fath, h.y. dim Cynrychiolaeth Gyfrannol (Proportional Representation).
24. Na all.
25. Na fydd, dim ond i weithredu deddfau wedi eu pasio gan Westminster.
26. Bydd.
27. Nid dan yr enw hwnnw. 'Arweinydd' y gelwir pen dyn y Cynulliad.
28. Nid dan yr enw hwnnw. Ond fe fydd 'Pwyllgor Gweithredol'.
29. Dim ond 1,100. (Cymharer â 100,000 — staff Llywodraeth Leol yng Nghymru ar hyn o bryd; neu 45,000 — staff y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru.)
30. Addysg Gynradd, Tai, Llywodraeth Leol.

## ADRAN DD

31. Ddim o gwbl.
32. Byddant.
33. Na fydd.
34. Bydd. Fe'i telir drwy'r Cynulliad.
35. Fe ddaw'r arian mewn grant bloc a fydd yn cael ei ddyfarnu'n flynyddol gan Westminster. Yn ôl yr amcan diweddaraf, bydd y gost yn llai na cheiniog y pen i bob trethdalwr yn y Deyrnas.

★★★★★★★★★★★★★★★★★★

## ADRAN E

36. 57. Daeth i fod, fwy neu lai fel y mae yn awr, pan aeth De Iwerddon allan ohoni yn 1922.
37. Y Frenhines Anne (1702-1714). Dechreuwyd arfer y term 'Prydain Fawr' pan unwyd seneddau'r Alban a Lloegr yn 1707.
38. Am fod Deddf Uno 1536 yn dweud mai rhan o Loegr yw Cymru. Croes San Siôr (y groes goch sgwâr) sy'n cynrychioli Cymru.
39. Dywedir 'English Law' o hyd, er mwyn gwahaniaethu rhwng cyfraith Lloegr a chyfraith yr Alban. Yr oedd yn rhan o gytundeb uno Lloegr a'r Alban (1707) fod y deddfau a basiwyd gan y ddwy senedd cyn hynny i ddal mewn grym.
40. 'Privy Councillor', neu aelod o'r 'Cyfrin Gyngor' — y corff sy'n cynghori'r Frenhines ar faterion y cyfansoddiad. Ar ôl datganoli, bydd rhan bwysig iawn i'r cyngor hwn i'w chwarae, oherwydd Pwyllgor Cyfreithiol y Cyfrin Gyngor sydd i gymodi lle bo unrhyw ddadl rhwng y Cynulliad Cymreig a Senedd Westminster.

★★★★★★★★★★★★★★★★★★

## ADRAN F

41. Rhaid dweud 'cywir', mae'n debyg, gan fod Deddf Uno 1536 yn dal ar y Llyfr Statud. Hyd yn oed os yw gosodiad yn gywir mewn dim ond *un* ystyr, y mae'n gywir yr un fath.
42. Cywir. Y mae yna o leiaf dair. Felly mae'n rhaid bod yna un.
43. Anghywir. yn fanwl fanwl (medden' nhw), 'does yna ddim 'Dinesydd Prydeinig', dim ond 'Deiliad Prydeinig' ('British Subject'). 'Y Frenhines yn y Senedd' sy'n gyfrifol am ddeddfu ym Mhrydain: yn dechnegol felly, gwlad o 'ddeiliaid y Goron', nid gwlad o 'ddinasyddion' (fel Ffrainc, dyweder) yw Prydain.
44. Cywir. Mwy na hynny, oherwydd y "rheol 40%" fe fydd yn cyfrif fel pleidleisiwr yn erbyn os na phleidleisia o gwbl.
45. Cywir. 'Power devolved is power retained' yw'r egwyddor. Byddai gan Westminster yr hawl i ddiddymu'r Cynulliad Cymreig unrhyw adeg, petai'n dewis.

★★★★★★★★★★★★★★★★★★

Sut hwyl gawsoch chi ar ateb?

Os cawsoch chi farciau llawn (50), 'rydych chi'n gwybod pob peth. Hoffech chi broffwydo canlyniad y refferendwm?

40 marc: da iawn. Fe ddylech chi fod yn aelod o'r Cynulliad Cymreig.

30 marc: digon da wir.

**O dan 30: hidiwch befo. Cofiwch fynd i fotio yr un fath.**

# Cysgu mâs

**Noson glir, rewllyd oedd hi, ryw wythnos cyn y Nadolig, pan adewais Dyfrig House, ar y Fitzhamon Embankment. Mynd gyda Kath ac Anna a Sarah yr oeddwn ar eu rownd reolaidd i fynd â chwpan o gawl twym a thafell o fara i'r brodyr gweiniaid oedd yn "cysgu mâs" y noson honno.**

Wrth fynd â pharsel o hen ddillad i bencadlys y Cyreniaid yn Tresillian Terrace, cefais fy nghyfeirio at y Tad Delaney o Briordy'r Santes Fair yng Nghanton a threfnwyd i gyfarfod yn Nhŷ Dyfrig am hanner awr wedi deg. Hostel gan y Pabyddion ar gyfer dynion sydd ag angen lle syml, glân am bris rhad, dyna yw'r tŷ bellach, ond heno roedd yn fan-cyfarfod hwylus i'r gwirfoddolwyr i drefnu eu taith. Synnais at afiaith a sirioldeb y cwmni ifanc.

"Faint o geir sydd gyda ni heno?"

"Tri."

"Reit. Fe all Joe a P-- a T-- fynd i gyfeiriad Splott, a Mary a D-- a B-- i gyfeiriad Riverside, ac yna Kath a Sarah ac Anna i fynd i gyfeiriad y Dociau ac fe all G.L. yma fynd gyda *nhw*."

Yr oeddwn wedi fy nghyflwyno fy hun iddynt fel G.L. Davies ac yr oeddent eisoes wedi fy nerbyn yn llawen i'w plith, er nad oeddent erioed wedi clywed sôn am *Y Dinesydd*. Yn wir, roeddwn i'n casglu eu bod yn synnu fod y fath bapur yn cylchredeg yn y ddinas.

Yr oedd yn amlwg fod y cwmni twymgalon yn nabod eu "cwsmeriaid" yn bur dda.

"Mae S-- wedi symud o'r garej gwag yna i mewn i dŷ adfail yn -- Terrace."

"Ych chi'n cofio'r Gwyddel pengoch yna yn Splott? Roedd yn pesychu'n drwm pan welais ef ddiwetha; gofalwch ddod o hyd iddo heno."

"Ych chi'n gwbod fod M-- wedi gwneud ymdrech fawr i gadw'n "sych". Mae e' wedi cael lle fel porter yn siop Howells ac fe dalodd rhywun fis o rent ymlaen llaw iddo gael ystafell gweddol barchus yn Y Rhath. Dyna paham nad ydan' ni wedi cael sôn amdano ers tipyn."

Felly, ychydig wedi unarddeg y nos, wele ni allan ar y pafin, â'r sêr yn pefrio arnom drwy'r oerni mawr. I mewn i gar Kath; gwraig ganol-oed radlon a chynnes oedd hi, a'i chymeriad hoyw a siriol yn amlwg. Dwy eneth brydweddol a bywiog, tua'r ugain oed, oedd Anna a Sarah. Yr oedd y merched wedi paratoi'r cawl gartre a'i roi mewn siwgiau "thermos" yng nghist y car.

Ein nod cyntaf oedd tai gwag condemniedig yn Crichton Place, yng nghysgod y brif rheilffordd yn ymyl East Canal Wharf. Roedd clo'r drws cyntaf wedi'i dorri; gwthio heibio i'r drws a dringo dros bentwr o blaster a llwch a photeli a phob rwbel i mewn i'r ystafell ar lawr. Galw allan,

"Soup!"

Dim ateb ar unwaith, ond o dipyn i beth dyma bentwr o hen glytiau budron yn y cornel yn ymysgwyd a phen dynol yn dod i'r golwg.

"Would you like some hot soup?" gofynnodd Kath.

"Alright," meddai'r cysgadur, "Put it down. I'll have it later."

"No no," mynnai Kath, "Drink it now, while it's hot."

"Would you like some bread with it?" gofynnodd Sarah. Yntau'n gwrthod y bara.

"Is there anyone else here?"

"Yes. Upstairs."

Roedd marian o blaster syrthiedig yn gorchuddio gwaelod y grisiau simsan, ond dyma'r merched yn clambro drosto ac i fyny i'r llofft, a minnau'n dilyn. Neb yn yr ystafell ffrynt am fod estyll y llawr wedi diflannu bron yn llwyr, ond yn yr ystafell gefn roedd creadur yn gorwedd ar bentwr o fudreddi o dan orchudd o hen gotiau, sachau, carpedi ac ati. Cynnig cawl iddo sawl gwaith. Ond ni fynnai ateb, ond troi yn ei ôl i'w gwsg diflas.

Penderfynu rhoi'r gorau iddo a mynd yn ein blaenau i'r tŷ drws nesaf. Neb ar y llawr; treio'r llofft a chael hen ŵr yno (ond erbyn meddwl, falle nad oedd e' ddim mwy na hanner cant.) Hwn yn derbyn y cawl poeth yn ddiolchgar, a'r bara hefyd, ond yn cwyno am yr oerfel ac yn gofyn a oedd gennym ryw sach neu hen gyrten i daenu drosto. Kath ar unwaith yr mynd i lawr i'w char ac yn dod yn ôl ag hen flanced.

Doedd neb yn y tŷ nesa', ond ymlaen â ni a chael hyd i dri neu bedwar arall yn y rhes, un ohonynt wedi cael gafael ar ffrâm hen wely a gosod ei bentwr o "ddillad gwely" ar hwnnw. Roeddent yn derbyn eu hymwelwyr yn ddigon boneddigaidd ac yn ddiolchgar am y cawl poeth a'r bara. Gofynnodd un ohonynt, gyda ffug-urddas chwareus, cyn derbyn y cawl yn ei gwpan papur,

"Is it chicken or mushroom?"

Ac Anna, yn smalio yn yr un modd yn dweud,

"I'll bring you a printed menu next time."

Ond ar waethaf y direidi cyfeillgar, doedd dim cuddio ar gyflwr torcalonnus y dynion hyn, a oedd, trwy ddewis neu o raid, trwy anffawd neu o wendid cymeriad, wedi suddo i'r fath drueni. Ac ar noson o rew fel cyllell! Ac i feddwl fy mod i, bedair awr yn gynt, wedi bod yn ymarfer gyda Chôr y Tabernacl o fewn rhyw ddau ganllath i'r trueni hwn!

Symud y car ryw ganllath a sefyll ar lain bychan o dir wâst. Yr oeddem ar un pen i ddwy res o dai condemniedig, gwag. Yr oeddent wedi eu hadeiladu cefn wrth gefn, ond roedd i bob tŷ iard gefn, ond heb lôn gefn rhwng y ddwy res. Felly roedd pob iard am y wal ag iard y tŷ yn y rhes arall yn ogystal ag iardiau'r tai o bobtu iddo yn ei res ei hun. Y naill ben a'r llall i'r ddwyres dai yr oedd wal uchel o ddeuddeg troedfedd. Yr oedd drysau a ffenestri ffrynt y tai wedi'u cau â bricwaith. I bob golwg, doedd hi ddim yn bosib i neb fynd i mewn i'r tai... Ond gwyddai Kath yn wahanol. Yr oedd hi wedi trefnu â Joe o gwmni Splott i gyfarfod â ni yma am hanner nos, ac ar y funud wele Joe yn ymddangos. Yr oedd y tir wast lle cyfarfyddem yng nghysgod y wal gerrig uchel ar un pen i'r tai. Aeth Joe â ni at le yn y wal lle roedd twll wedi ei dorri gan "y brodyr" trwy dynnu carreg ar ôl carreg nes bod y twll yn ddigon mawr i gorff dynol ymwthio drwyddo.

Cropiodd Joe drwy'r twll a ninnau i gyd yn ei ddilyn ar ein boliau, gan estyn y siwgiau "thermos" o'r naill i'r llall yn ofalus. Safem yn awr yn iard gefn y tŷ cyntaf. Yr unig ffordd i fynd o'r naill dy i'r llall oedd dros y waliau oedd yn amgylchu pob iard. Ond roedd rhaid symud yn ofalus; roedd pob iard yn llawn o sbwriel o bob math, a ffosydd wedi'u cloddio am ryw reswm yn amryw ohonynt. Roedd yn ofynnol fflachio golau o'n blaenau bob cam.

Pan oeddem ar fin dechrau i chwilio'r tŷ cyntaf, dyma ddau o'r "trigolion" yn bustachu yn swnllyd drwy'r twll. Yr oedd un ohonynt yn feddw gaib, a'i gydymaith yn ei helpu, er nad oedd hwnnw yn sobor o bell ffordd. Lle roedden' nhw wedi bod ers "awr cau", does dyn a ŵyr. I wneud pethau yn waeth, roedd gan y brawd meddw goes stiff, neu glun bren. A dyna wnaeth Joe, oedd helpu'r ddau dros wal ar ôl wal, gan chwilio bob tro am fwlch isel, neu le i roi blaen troed, neu lle roedd pentwr o rwbel yn ei gwneud hi'n bosib camu i ben y wal, nes cyrraedd eu *lodgin*.

Yn y cyfamser, roedd y merched wedi dechrau chwilio'r tai o un i un, a chael amryw o gwsmeriaid. Yr oedd un ffenest gefn yn olau gan dân. Estyll o'r adeilad oedd yn llosgi yn y grât, a phedwar o ddynion, yn y budreddi arferol, yn cysgu yn y cynhesrwydd. Derbyn y cawl yn foesgar, a'r bara hefyd, ac yna Joe yn estyn sigaret yr un iddynt.

Yn un o'r tai yr oedd "uchelwr" yn gorwedd ar wely dwbwl ac wedi dodrefnu ei ystafell ag astell neu ddwy o gelfi na welodd y tenantiaid olaf hi'n werth eu symud.

Felly o dŷ i dŷ. Aeth Joe, ar beryg bywyd, i mewn i bob tŷ ac i fyny i'r grisiau maluriedig, i fod yn sicr nad oedd neb yno eisiau help. Mynegodd y merched, yn ddistaw bach, eu hedmygedd ohono, a'i ddyfalbarhad.

"Dyw Joe byth yn methu, nacyn cwyno. Glaw neu oerfel, mae e' allan bob tro yr ydan ni yn gyfrifol am y *run*."

Felly, yn ôl a ni, dros y waliau a thrwy'r twll, at y car. Yr oedd hi erbyn hyn yn tynnu at un o'r gloch. Yr oeddem wedi cael ryw ddau ddwsin o gwsmeriaid a doedd ddim llawer o gawl ar ôl. Ond meddai Kath,

"Y mae un lle y mae'n rhaid inni fynd eto."

Ac i lawr â ni i waelod Bute Street. Troi i'r dde ar y gwaelod, yna i'r dde eto ac aros wrth ochr adeilad mawr, pwysig yr olwg, yn wynebu ar James Street. Un ffenest fawr ar yr ochr yn yfflon; clwydi trelis haearn ar y grisiau o flaen y drws yn gil-agored, a'r drws crand yr un fath. I mewn â ni i gyntedd uchel, urddasol. Galw. Dim ateb. Ystafell ar y dde yn wag oddigerth sgerbwd hen biano. Drws yn arwain i ystafell fawr arall; treio hwnnw, a galw; ac o'r diwedd dyma swn cyffro y tu arall i'r drws. Ystafell fawr, urddasol eto, a phedwar yn cysgu yno. Y "pennaeth" yn gorwedd ar rywbeth a fu yn wely dwbwl; un arall yn lled-orwedd ar ddwy hen gadair-freichiau, a dau arall yn rhannu gwely sengl dan "garthen" o fratiau a chlytiau budron; ac un o'r ddau olaf yma yn *ferch*, llai na deugain oed!

Cynnig y cawl iddynt a hwythau yn ei dderbyn yn awchus. Yr oedd rhain yn ymddangos yn barod, yn wir yn awyddus, i siarad â'u hymwelwyr. Honnai'r ferch ei bod hi wedi bod yn gweithio fel *receptionist* mewn gwesty yn y ddinas, ond roedd yn anodd gennyf ei chredu: un o'r dynion yn hawlio ei fod wedi dysgu crefft fel *chef*, ac yn pasio barn ffafriol ar y cawl.

"Fy anhawster i," meddai hwn, "yw fy mod yn ei chael hi'n fwyfwy anodd i fynd allan i wynebu pobol. Yn aml fydda' i ddim yn mynd allan am ddyddiau ar y tro."

Os bydd i hyn o adroddiad ysgogi rywun i gynnig hen ddillad neu arian neu wasanaeth, rwy'n siwr y bydd un o'r rhain yn gallu defnyddio'r holl adnoddau a ddaw i law.

Y Tad Delaney,
Priordy'r Santes Fair,
(St. Mary's Priory)
Talbot Street,
Canton, CAERDYDD.
Ffôn: Caerdydd 30492.

*neu*

Y Cyreniaid (Cyrenians),
35 Tresillian Terrace,
Penarth Road,
CAERDYDD.
Ffôn: Caerdydd 23490.

# Cymdeithas Newydd Llanedeyrn

**Un o ôl-nodion yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhentwyn y llynedd oedd sefydlu Cymdeithas Gymraeg yno. Erbyn hyn mae'r Gymdeithas tua chwe mis oed ac yn cyfarfod yn gyson bob mis.**

Pwrpas y Gymdeithas yw rhoi cyfle i Gymry Cymraeg yr ardal i gwrdd a chymdeithasu yn eu hiaith naturiol a gobeithia'r aelodau sefydlu cnewyllun gref o Gymreictod mewn ardal sy'n ddigon Seisnig ei ansawdd.

Yn ystod misoedd ola y llynedd cyfarfu'r Gymdeithas ryw deirgwaith - cafwyd noson caws a gwin, dathlwyd Noson Calan Gaeaf, ac yna ar ddiwedd y flwyddyn aeth rhai o'r aelodau o amgylch stâd Pentwyn i ganu carolau, ac o fewn rhyw ddwyawr - a llawer o hwyl - casglwyd £33 i TENOVUS.

Mae rhaglen fywiog wedi'i threfnu ar gyfer y flwyddyn newydd - dechreuwyd gydag Ymryson Ceilys ar yr ail o Chwefror, yna ar yr 11eg o Fawrth byddwn yn dathlu Gŵyl Dewi gyda Noson o fwyd, adloniant a dawnsio gwerin yng Nghanolfan gymdeithasol Llanedeyrn. Yn mis Mai edrychwn ymlaen at helfa drysor, a byddwn yn ymweld â Phlas Glansefin ym mis Mehefin.

Os oes unrhywun yn awyddus i ymuno â'r Gymdeithas cysylltwch ag....

Avril Jones (Cadeirydd)- 757514
Ann Bryan (Ysgrifennydd)- 754525
Iwan Humphries (Trysorydd) - 750166

*BRAD YN Y BRYNIAU - Valere Depauu/Dilys Price*

**Yng ngwlad Basg y lleolir y stori gyffrous hon a cheir ynddi gyfuniad da o antur a serch. Ond pan fo gwlad fechan fel hon yn ymladd am ei rhyddiad a'r E.T.A. (y Mudiad Cenedlaethol) yn cael ei erlid gan y GUARDOA CIVIL, mater o hap a damwain ydyw serch, yng nghanol y brâd, yr ofn, yr erlid a'r cynnwrf.**

Dau aelod o'r Mudiad ydoedd Kepa a Miren, yn cyflawni eu dyletswydd dros eu gwlad. Roedd brawd Miren wedi cael ei ladd trwy frâd. Pwy oedd y bradwr? Nid ar chwarae bach y gellid croesi'r ffin yn y mynyddoedd rhwng Sbaen a Ffrainc a heddlu Sbaen mor wyliadwrus, ond croesi oedd raid a hynny, o bosib, yng nghwmni bradwr.

# EGLURHAD

**Hoffwn, ar ran myfyrwyr y cwrs blwyddyn, Tystysgrif Uwch, Coleg Cerdd a Drama Cymru, ymddiheuro'n ddiffuant am ohirio'r perfformiad nos Fawrth, y 14eg o Chwefror. Rhesymau technegol oedd yn gyfrifol am hyn; nid oedd y criw technegol, a benodwyd ers mis, ar gael o gwbl ar gyfer ymarferion tyngedfennol cyn y perfformiad. Gwnaed hyn yn hysbys i ni ar y dydd Mawrth cyn y perfformiad!**

**Gellir dychmygu ein siom a hefyd ein hanniddigrwydd ynglyn ag agwedd amhroffesiynol o'r fath yn enwedig gan ein bod wedi treulio wythnosau yn ymarfer.**

**Nid y ni'n unig sydd wedi ein siomi ond y miloedd oedd yn bwriadu dod i weld y ddrama. Ta waeth! Edrychwn ymlaen at y perfformiad nesaf (a chithau gobeithio!) Ac mi fydd perfformiad — deled dilyw, deled newyn.**

**Noson o amrywiaeth, cerddoriaeth, lliw, doniolwch, adloniant bondigrybwyll, yn cynnwys "Stori Rhys" — drama wreiddiol, newydd. Stori am nyrs go anghyffredin! Tydw i ddim am ddeud mwy, mae'n rhaid i chi ddod i'w gweld. Chewch chi ddim ail-gyfle. Mi fydd yn noson fyth-gofiadwy, er mai fi sy'n deud.**

**PAULINE WILLIAMS**

# Crysbas a Richard Rees

**Doedd dim 'ridycshyns' i stiwdants, ond ta waeth am hynny roedd y noswaith yn fendigedig. Am ryw reswm mae CRYSBAS yn grwp deniadol i'w wylio. Dyn a ŵyr pam - mae eu hofferynnau wedi'u tiwnio i wahanol gyweirnod, ac mae'r chwarae'n llac; ond fe ddweda i hyn-mae gan Crysbas set dda o ganeuon (ag eithrio 'Draenog Marw' wrth gwrs).**

Mae'r lleisiau'n gryf ac mewn tiwn; mae Gwynfor yn ddrymiwr da iawn, yn lliwio'r caneuon ond heb fod yn or- amlwg. Cofiaf eu caneuon yn dda - 'I fyny ac i lawr', 'Blws tŷ golchi', 'Caffi Jo' a llawer o rai eraill hefyd, oll wedi'u cyd-ysgrifennu gan Ali'r gitarydd bâs, a Bryn Fôn, y prif leisiwr. Cynulleidfa hynod o ysgolheigaidd - 'jet-set' Cymru Fydd, h.y. myfyrwyr ifanc Llanhari, ysgol Gyfun Llandaf a Rhydfelen - ysgolion 'elite' Cymru fel y'u gelwir gan wybodusion hynaws o Loegr.




# *Y Dysgwyr yn brysur*

CALENDR Y DYSGWYR.....

NOSON GAWS A GWIN.
Cynhelir Noson Gaws a Gwin dan nawdd Cymdeithas Dysgwyr Cymraeg ar nos Wener y 16eg o Fis Mawrth yng Nghanolfan Oedolion yr Eglwys Newydd, Manor Way o 8.00-11.00 o'r gloch. Croeso cynnes i Ddysgwyr a Chymry Cymraeg. Tocynnau....75c...oddi wrth Mrs Falmai Griffiths, 15 Cwm Nofydd, Rhiwbeina. (FFÔN: 614056)

EISTEDDFOD DYSGWYR DE MORGANNWG
Cynhelir yr Eisteddfod hon yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy am 7.00 o'r gloch ar Nos Fercher yr 28ain o Fis Mawrth. Mynediad...25c.

Y Beirniaid fydd Alun Guy ac Eleri Rodgers. Am raglen yr Eisteddfod cysylltwch â Huw Powell...... 18 Bishop's Rd., Yr Eglwys Newydd. (FFÔN: 60823)

OS BYDDWCH YN PRYNU NEU'N GWERTHU, MAE'N TALU FFORDD I YMGYNGHORI A'R ARBENIGWYR.
antiques UNLIMITED
PRYNIR EITEMAU SENGL NEU GYNNWYS TAI YN EU CRYNSWTH
7 Heol Penllin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, Tel: 62748 neu 616415.

# Colofn Shân Emlyn

"Wyt Ionawr yn oer a'th farrug yn wyn
A pha beth a wnaethost i ddŵr y llyn?"

Fel yna y bu hi bron drwy gydol mis Ionawr a'r llu streiciau yn cymhlethu bywyd pob teulu. Eira a bwyd sydd wedi mynd yn bryd a'n sylw am fis cyfan. Er, rhaid i mi gyfaddef nad wyf wedi gweld prinder unrhyw fwyd yn fy siopa lleol.

Ar un olwg mae hi wedi bod yn fis digon difyr, y teulu i gyd yn saff o dan yr un tô yn gynnes a digon o fwyd. Gan ein bod yn byw ar allt mae'r olygfa o'n ffenestr ffrynt wedi bod yn amrywiol a difyr - plant yn sglefrio a lluchio peli eira, pobl a cheir yn ymlwybro - rhai yn llwyddianus ac eraill yn ddigri o aflwyddianus.

Rhaid i mi gyfaddef bod 'na adegau pan y bu hi'n anodd iawn peidio a cholli fy limpyn yn lân - a hynny y gynnar bob bore. Does dim byd mwy diflas na cheisio datrys a dod i benderfyniad ynglŷn â'r un broblem bob dydd. Sgwrs debyg i hyn bob bore a hynny cyn bod neb yn gall....

"Be wnawn ni - wna ni'u deffro nhw?"

"Wn i ddim"

"Wel os ydyn nhw am fynd mae'n rhaid codi rwan neu mi gollan nhw'r bws os daw 'na fws."

"Be mae Hywel Gwynfryn yn 'i ddeud?"

"Deud wrtha ni am ffonio'r prifathrawon"

"O, wnawn ni mo hynny."

"Wel gwell inni'u codi nhw ta"

Dyna act gynta'r ddrama foreol -a'r ail act - rhywbeth tebyg i hyn....

Pedwar digon piwys yn cnoi tôst a'r sgwrs heb fod yn un felys iawn.

"Ddaw 'na neb o Faesteg i Lanhari heddiw, na'r Rhondda"

"Fydd 'na neb o'r Rhondda yn Rhydfelen chwaith - does dim pwynt mynd - a tasa chi heb 'y neffro i fasa dim rhaid imi godi tan amser cinio"

"Wela i ddim pwynt sglefrio i Lanhari a chael ein gyrru adra cyn cinio"

"Dad, fasa'n well iddyn nhw aros adra dwad?"

Dwy fel côr yn torri ar draws

"Mi rydan ni wedi codi rwan do!"

Dad yn ateb

"Gwell i chi drio mynd - mi ryda chi wedi colli digon o wersi - a mae 'na fwy i fywyd na diogi yn y gwely"

Finna wedyn, cyn i bethau waethygu, yn gofyn "Paned arall rhywun?"

Rwy'n siwr mai fel yna y bu hi mewn llawer o gartrefi Cymraeg Caerdydd. Y mae gaeaf caled 1947 yn fyw iawn yn fy nghof a chofiaf fethu teithio i'r ysgol am wythnosau ac rwy'n siwr y bydd gaeaf caled '79 yn fyw iawn yng nghof pawb ohonom.

**HYSBYSEBU**

**Am fanylion ynglŷn â'n telerau hysbysebu, cysylltier â:**

**Cyhoeddwyr Cleglen Cyf, 43 Heol Eglwys Gadeiriol Isaf, Caerdydd CF1 8LW. Ffôn: 0222-396262**

(Danfoner pob deunydd hysbysebu i'r cyfeiriad uchod, os gwelwch yn dda.)

**Carai Pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol.**

## MUDIAD YSOLION MEITHRIN

**Wedi prysurdeb y Nadolig braf oedd edrych ymlaen at flwyddyn newydd sbon yn llawn gobeithion. Ein gobeithion mwya ni ar hyn o bryd yn y mudiad ydy y cawn fwy o athrawon meithrin; go llwm ydy'r sefyllfa nawr ac os oes unrhywun â diddordeb mewn helpu mewn ysgol feithrin byddwn yn falch iawn o glywed oddi wrthych.**

Mae un ysgol yn Llanfihangel ar Elai yn mynnu sylw gan ein bod heb athrawes ers bron i flwyddyn ac oni bai am weithgarwch a brwdfrydedd rhieni byddai'n ddiflas iawn ar y criw bach yn yr ysgol. Felly cofiwch gysylltu â mi ar unwaith os oes diddordeb gennych chi.

Rydym yn ffarwelio ag un o'n hathrawon ffyddlonaf, sef Mrs Eirwen Price, Ysgol Feithrin y Crwys. Wrth fynegi ein dymuniadau gorau i Eirwen a'r teulu yn y Drenewydd carem ddiolch yn gynnes iawn iddi am ei gwaith, ei chefnogaeth a'i pharodrwydd i helpu bob amser pan oedd angen.

Gwelodd y flwyddyn newydd agor cylch meithrin newydd yn Nhrelai. Mae'r cylch yn cwrdd yn y Ganolfan Hamdden a'r athrawes ydy Mrs Elaine Morgan. Am wybodaeth pellach ffoniwch Elaine......591633. Ein dymuniadau gorau iddynt.

Yn nes ymlaen yn y flwyddyn byddwn yn cynnal Wythnos Feithrin. Bydd hon yn wythnos o gyhoeddusrwydd a gweithgarwch o fewn ein cylchoedd meithrin, a bydd yn gyfle i'r cyhoedd ddod i mewn i'n cylchoedd meithrin lle gosodir sylfaen ieithyddol a chymdeithasol i gymaint o blant bach.

Tynnwyd fy sylw y dydd o'r blaen i'r ffaith nad oes cylch meithrin canolog yng Nghaerdydd i blant lle bo'u rhieni y gweithio yn y ddinas. Os oes rhieni yn awyddus i'w plant gael addysg feithrin Gymraeg ond sy ar hyn o bryd yn methu oherwydd diffyg cyfleusterau wnewch chi fy ffonio........
AVRIL JONES - 757514.

Avril Jones, Swyddog Datblygu de Morgannwg.

# TEYRNGED

## Diolch Am D.J.Owen, Caerffili.

**Roedd D.J.Owen yn gymeriad adnabyddus yng Nghwm Rhymni. Brodor o Gilfynydd, Cwm Tâf, ydoedd ond daeth drosodd i Gwm Rhymni yn ŵr ifanc i ddechrau ar ei yrfa fel athro yn Ystrad Mynach. Ymhen blynyddoedd apwyntiwyd ef yn brifathro Ysgol Iau, Hengoed. Pan ymddeolodd o'r swydd honno ym 1967 symudodd i fyw i Arfwyn, Caerffili. Bu farw ganol Rhagfyr y llynedd.**

Roedd yn aelod gweithgar yng Nghapel Siloh (M.C.) Ystrad Mynach. Codwyd ef yn flaenor yn 1941, ac yn ei ddydd llanwodd aml i swydd, ef oedd trysorydd dosbarth Caerffili a Siloh, bu'n aelod o amryw bwyllgorau'r dosbarth, ef oedd arweinydd y gân yn ei gapel a bu'n arweinydd Cymanfaoedd hefyd.

Bu'n ffyddlon tu hwnt i Gymdeithas Gymraeg Caerffili a chafodd ei llywyddu yn ei dro. Yno y deuthum i'w adnabod orau. Yno, fel yn Siloh roedd yn barod i roi o'i allu i'w chynorthwyo. Ef, yn ei ffordd ddihafal ei hun "a gynigiodd y bleidlais o ddiolchgarwch" yng nghyfarfod mis Tachwedd y llynedd, ei gyfarfod ola. Y nos Lun honno, yr ugeinfed o'r mis, annogodd ni, aelodau'r Gymdeithas oedd yn bresonnol i fod yn driw i'r Gymraeg. O ddarllen rhwng y llinellau ein cynghori a wnaeth i wneud y pethau bychain pwysig.

Heddiw mae ei siars yn sialens i bawb sy o ddifri ynghylch y pethe yng Nghwm Rhymni. Mae'n rhaid i ni dorchi ein llewys yn fwy egnïol rwan oherwydd fod un yn llai i gadw'r baw o'r ffynnon. Diolchwn am ei ffyddlondeb i gadw'r Gymdeithas Gymraeg ar ei thraed yng Nghaerffili. Bu'n ffyddlon hefyd i'w weledigaeth o'r pethe. Efelychwn ef.

Dafydd Islwyn

# Dwi wedi bod yna!

**"Dwi yma!" Dyna ddwedais i ar ôl cyrraedd. "O'r diwedd dwi yma". Yn yr union fan lle roedd y smotyn mawr coch hwnnw ar y map o wlad Canan ar fur yr Ysgol Sul ers talwm. Sawl gwaith y buom ni'n trafod y lle mewn dosbarth ar ôl dosbarth? Sawl cwestiwn ddaru ni ateb amdani mewn llawer i Aroliad Ysgrifenedig? Sawl adnod ddysgais i oedd yn gysylltiedig â hi?**

*"O Jerusalem, Jerusalem, yr hon wyt yn lladd y proffwydi, ac yn llabyddio y rhai a anfonir atat. Pa sawl gwaith y mynaswn gasglu dy blant ynghyd, y modd y casgl yr iar ei chywion dan ei hadenydd ac nis mynnech!"*

A dyma fi yno o fewn ei muriau hynafol. Jerusalem! Yno hefo criw o Gymru Cymraeg, bob un ohonom yn eiddgar ac awyddus i ddilyn ôl troed Crist - wel am wythnos o leiaf!

Sefyll ar fan ei eni ym Methlehem. Dringo Mynydd Seion ac oedi yn nhawelwch ystafell y Swper Olaf. Croesi Môr Gaelilea a Tiberias i Capharnaum a'r haul poeth yn crasu gwegil rhywun. 'Roedd y cyfan fel breuddwyd, yn enwedig o gofio mai newydd adael Caerdydd dan gladd o eira 'roedda ni.

Ein harweinydd rhadlon oedd y Parchedig Cynwil Williams, a dyna i chi gerddwr! Wel brasgamwr ddyliwn i ddweud. Dim ond cael a chael oedd hi i ddal i fyny â fo. Wyddwn i ddim o'r blaen fod Gweinidogion cystal cerddwrs - 'di cael digon o ymarfer wrth hel tai debyg gen i! 'Roedd Cynwil wedi bod yn Israel o'r blaen ac yn gwybod i'r dim ffordd a sut i fynd i bob man. 'Roedd amser i gerdded ac amser i 'dacsi'. A dyna i chi fargeiniwr oedd o hefyd. 'Roedd o'n mynnu pennu pris bob 'tacsi' hefo'r hen Arab o ddreifar cyn cychwyn bob taith. Dadla a thaeru hir cyn taro'r fargen a llwyddo i gael y cerbyd am hanner y pris gwreiddiol. Os gwn i ble cafodd o'r profiad o wneud hynny yng Nghymru? Wedi trin digon o Flaenoriaid debyg gen i!

"Bora 'ma", medda Cynwil un diwrnod. "Dwi an fynd a chi i Bethania. Mi gewch dacsi i fanno, ond mi fydd rhaid i chi gerdded bob cam yn ôl i Jerusalem yma!" Pawb yn chwerthin gan feddwl ei fod yn tynnu coes, ond na, felly bu hi! 'Roedd o'n benderfynol ein bod ni'n gwneud taith olaf Crist o Bethania, dros Fynydd yr Olewydd, ac i Jerusalem ar droed fel ag y gwnaeth Ef hi - taith o rhyw bum milltir dros dir garw a llychlyd. A dyna i chi daith, roedd bob cam gymro ni'n llawn pwrpas ac arwyddocâd. Seibiant bach yn Bethphage ac yna ffwrdd a ni eto tua chopa Mynydd yr Olewydd ac yna, edrych dros y crib i'r dyffryn yr ochor draw. A dyna hi oddi tanom yn ei holl ogoniant - Jerusalem! Dyna i chi deimlad rhyfadd oedd sefyll yn y fan honno ar ben Mynydd yr Olewydd yn edrych i lawr arni!

*Ac wedi iddo ddyfod yn agos, pan welodd Efe y ddinas, Efe a wylodd drosti"*

Oedd, 'roedd y cyfan yn rhyw fath o freuddwyd - ac eto nid breuddwyd chwaith. Rhyw deimlad od oedd o - fell petawn i wedi 'nghipio yn ôl i'm plentyndod yn Neiniolen ers talwm. Yn ôl i'r adeg honno pan oedd popeth yn real ac yn bod. 'Da chi'n gwbod be' ydwi'n feddwl. Nid rhyw 'fyth' grefyddol oedd Crist i ni'n blant ond dyn go iawn! Arwr i ddweud y gwir - yn mynd o gwmpas i wneud daioni hefo giang o ddynion ifanc mentrus.

I mi yr adeg honno Deiniolen oedd Nazareth - fan'no cafodd o'i fagu a Chaernarfon oedd Jerusalem. Llyn Padarn oedd Môr Galilea a Llanberis oedd Capharnaum. Moel Rhiwen oedd Mynydd yr Olewydd (roeddwn i'n gallu gweld Nebo go iawn o fanno prun bynnag). Rhywla rhwng Bigil Fach a Bigil Fawr oedd y Diffaethwch - roedd digon o gerrig yn fanno i'r hen ddiafol i demptio fo.

A felly o'n i'n teimlo yn Israel. 'Roedd popeth yn real unwaith eto. "Dwi'n taflu carreg i Fôr Galilea a ma' llwch Bethania'n gwynu fy sgidia i. 'Dwi'n eistedd yng Ngardd Gethsemane a ma'r ddeilen olewydd yma sydd ar gledar fy llaw i yn un go iawn!" Mi oedd hi'n werth mynd i Israel petai ond i f'atgoffa fy hun o brofiadau gwerthfawr oedd bron wedi mynd ar goll!

GWENLYN PARRY




Ffenestr-siop
Y SIOP I CHI...

Pan fyddwch chi'n ystyried gwelliannau i'r cartref, ac yn wynebu'r broblem o gael ffenestr neu ddrws.

Beth am... ddod i ymweld â'r arbenigwyr yng Nghanolfan Ffenestri De Cymru a gweld bron 100 mlynedd o brofiad o wneuthur ffenestri ar waith?

...weld y detholiad ehangaf posib o ffenestri a drysau patio o ansawdd dda, a'u gweld yn cael eu gwneud yn y fan a'r lle?

...weld sut y gellir arbed ar filiau gwresogi drwy dorri i lawr ar y gwres a gollir a chynyddu gwerth eich tŷ ar yr un pryd?

...dderbyn cyngor ar osod cyfarpar i mewn eich hunan — gellwch arbed 50% arall felly.

...edrych ar ein telerau hûr-bwrcas?

Yn yr amserau caled hyn, synhwyrol yw edrych CYN prynu.

CANOLFAN FFENESTRI DE CYMRU

Heol Curran, Caerdydd. tel. 388555
Llun-Gwen 9a.m. hyd 5p.m.,
Sad 9a.m. hyd hanner dydd.
Croeso mawr i'r Cyhoedd a'r Fasnach.

JONWINDOWS
— yr enw y gellwch ymddiried ynddo JWd
(Aelod o Grŵp John Williams o Gaerdydd Cyf.)



*Ar Fynydd y Wenallt.*

# CLWB RYGBI CAERDYDD

**Eleni mae Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn ddeng mlwydd oed ac, o'r dyddiau cynnar o redeg y tîm mae'r Clwb yn awr yn rhedeg tri tîm yn gyson. Dwywaith llynedd llwyddodd y clwb ddodi pedwar tîm allan i chwarae.**

Mae hyn yn bosib oherwydd bod gennym ffatri barod yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Ar hyn o bryd mae pump ar hugain o gyn-ddisgyblion yr Ysgol a hefyd nifer o'r athrawon yn chwarae i'r clwb.

Eleni mae'r tymor hyd yn hyn wedi bod braidd yn gymysglyd i'r tri tîm. Dechreuwyd y tymor yn dda; y tîm cyntaf yn ennill y gemau cynnar yn dda ac yn chwarae rygbi cyffrois. Y blaenwyr yn ennill pêl dda a'r olwyr yn dangos tipyn mwy o hyder na'r tymorau cynt, yn defnyddio'r bêl yn dda yn enwedig yr hanneri Gwilym Bere a Mark Titley.

Y fuddugoliaeth fwyaf boddhaol ym mis Medi oedd i fyny ym Mhentyrch pan gurwyd y tîm lleol, yn cynnwys dau gyn-chwaraewyr y clwb, o 18 pwynt i 10. Yn anffodus fe gollwyd dwy gêm gwpan yn gynnar ym mis Hydref. Yng Nghwpan Mallett fe gollodd y clwb gyda chic olaf y gêm i Llandaf o 19 pwynt i 16 ac yng Nghwpan Bragwyr Cymru fe gollodd y clwb gyda cais i'r gwrthwynebwyr St Josephs yn y munud olaf, y sgor 9 pwynt i 6.

Mae'r ail dîm yn dal i ymladd ymlaen yng nghystadleuaeth i ail dimau Cylch Caerdydd, Cwpan Ninian Stuart, a'r gobaith mawr yw y byddwn un cam yn well na'r ail dîm dwy flynedd yn ôl pan gollwyd y gêm yn y rownd derfynnol i Rhymni ar Barc yr Arfau.

Mae'r clwb wedi bod dros Glawdd Offa ddwywaith eleni. Y tro cyntaf aeth tri tîm i Matson, yn anffodus y tro hwn dangosodd y Saeson sut y dylid chwarae rygbi. Colli fu hanes y tri tîm ond mae'n deg i ddweud mai Matson yw'r tîm cryfaf i'r tîm cyntaf chwarae yn ei erbyn erioed.

'Roedd yr ail dro dros y Clawdd yn dipyn mwy llwyddianus, un tîm yn mynd i Wantage ac yn ennill yn hawdd.

Y fuddugoliaeth orau hyd yn hyn oedd yr un dros y Gorfforaeth Ddur, Port Talbot bore'r gêm ryngwladol rhwng Cymru a Seland Newydd. Gêm rhydfeddol o dda ac Owen Eames yn sgori cais yn hwyr yn y gêm, y sgor — 24 pwynt i 20.

Mae tri o'n chwaraewyr John Humphreys, Alun Jenkins a Huw Hall Williams wedi cynrychioli tîm Cylch Caerdydd eleni ac yn chwarae rhan bwysig yn llwyddiant y tîm.

Wrth edrych ymlaen at weddill y tymor mae taith i'r Iwerddon yn cael ei threfnu at y Pasg ac eisioes mae trefniadau ar gyfer Pasg 1980 yn cael eu gwneud pryd y bwriedir mynd i'r Eidal. Mae Carwyn James, ein cyn-lywydd, yn helpu gyda'r trefniadau.

Yn bwysicach na dim, mae trefniadau ar gyfer ein canolfan yn Clarence Road yn mynd yn eu blaenau yn hwylus ac mae trafodaethau gyda'r bragwyr yn dirwyn i ben. Ar hyn o bryd mae'r adeilad yn cael ei atgyweirio ac wedyn bydd rhywfaint o waith addurno, ond y gobaith mawr yw y bydd Clwb Cymraeg yng Nghaerdydd yn fuan iawn.

Mae'r Clwb yn chwarae bob prynhawn Sadwrn, bron, ar Feysydd Llandaf, felly estynir croeso i unrhyw un i ddod i'n cefnogi. Am fanylion pellach ffoniwch yr ysgrifennydd - Wyn Williams, Caerdydd 732359.

**Ie dros Gymru**

## CYLCH CINIO MERCHED CAERDYDD

**Cafwyd cyfarfod cynta'r tymor ym mis Ionawr -a hynny mewn man cyfarfod newydd, sef 'Ye Olde Wine Shop' yn y Wyndham Arcade. Ein gŵr gwadd oedd y Barnwr Hywel ap Robert.**

Daeth mwy o aelodau nag erioed i'r cyfarfod - dros hanner cant ohonom. Cafwyd noson hwyliog dros ben a phawb yn hoffi awyrgylch agos atoch y man cyfarfod newydd a'r bwyd yn plesio pawb.

Bydd ein cyfarfod nesa ar Fawrth yr 8fed am wyth o'r gloch a'n gŵr gwadd fydd Gwyn Erfyl. Beth am fentro allan? Cysylltwch ag Einir Williams 612045 neu Shân Emlyn 751469.

# Taith Rhydfelen

**Tua unarddeg o'r gloch fore Gwener, Ionawr 19eg, dechreuodd fwrw eira. Dim byd newydd, medde chi. Mae pawb erbyn hyn yn ei dderbyn ac yn falch o'i weld gan ei fod yn esgus i aros adref o'r gwaith neu o'r ysgol, a swatio'n gynnes o flaen y tân. Ond am unwaith, poeni'n fawr yr oeddwn i y byddai'r eira, a oedd yn dyfnhau bob munud, yn f'atal rhag mynd i Gaeredin y noson honno ac, erbyn y prynhawn, roeddwn wedi anobeithio'n llwyr.**

Doedd gennyf ddim i'w golli o fynd i gwrdd â'm ffrindiau, yn ôl y trefniadau, mewn canolfan (sy'n gyfarwydd i blant Rhydfelen) yng Nghonway Road. (na, nid Canolfan yr Urdd!) Ac i'r fan honno, trwy ryw lwc, y daeth bws Cyril Evans i'n cyrchu. Goleuodd wynebau'r deugain ohonom ac fe stwffiom i'r bws efo'n baneri a'n cenhinen chwe troedfedd (a la Max Boyce.)

Roedd yn amlwg nad oedd neb yn mynd i gael cysgu ar y daith hon. Dechreuasom ganu Calon Lân ac aethom drwy'r repertoire i gyd. Ond ar ôl stopio dair gwaith am baned (a degau o weithiau i gael gwared o'r baned!) tawelodd y canu ac, bob yn un, fe'n trechwyd gan gwsg. Erbyn i mi ddeffro, roeddem yng Nghaeredin. Digon siomedig oedd f'argraff gyntaf o'r ddinas ond, ar ôl crwydro dipyn, daethom o hyd i'w harddwch.

Aeth pawb i'w ffordd ei hun. (Peidiwch gofyn i ble 'raeth y bechgyn!) ac, ar ôl taith mor hir, roedd angen rhywbeth i dorri'r syched. Ac, ar ôl bod yn torri'r syched drwy'r bore, roedd hi'n bryd troi am y cae lle'r arhosai torf i gael mynediad a bu'n rhai disgwyl am gryn hanner awr mewn môr o dartan llachar. Fel yr oeddwn yn mynd i mewn cododd y dorf gan floeddio'n uchel- ie, roedd tîm Cymru, yn cael eu harwain gan JPR- yn rhedeg ar y maes. Bum i a'm ffrind yn ddigon anffodus i sefyll ynghanol torf anferth o Albanwyr yn gweiddi nerth eu pennau dros eu tîm, ac yn wir yn yr hanner cyntaf roedd ganddynt fwy o achos bloeddio na'r Cymry. Gyda'r sgôr ar ddiwedd yr hanner cyntaf yn 13-6 i'r Alban roeddwn i a'm ffrind yn teimlo'n unig iawn yng nghanol y Scotiaid.

Dechreuodd yr ail hanner yn well gyda chefnogaeth ein lleisiau a fu'n ysbrydoliaeth, mae'n amlwg, i Elgan Rees a sgoriodd gais yn y gornel. Yna un arall gan Terry Holmes wedi ei throsi gan Steve Fenwick. Erbyn hyn, roedd yr Albanwyr o'n cwmpas yn edrych yn ofidus iawn a minnau a'm ffrind yn dawnsio gan chwifio ein sgarffiau coch yn yr awyr. Doedd neb yn siwr iawn pryd yr oedd y gêm wedi darfod oherwydd, sawl gwaith, rhuthrodd cannoedd o Gymry balch ar y cae, er bod y gêm heb orffen. Ond pan aeth y chwiban terfynol, edrychai fel petai' Môr Coch wedi llifo dros y cae. Dawnsiai eraill yn fuddugoliaethus o gwmpas y cae.

Stori wahanol iawn oedd y daith yn ôl. Er ein bod i gyd ar ben y byd roedd blinder yn ein trechu. Doeddem ni heb gysgu am ddyddiau - neu felly y teimlai - ond, wedi'r cyfan unwaith bob dwy flynedd mae'n rhaid gwneud y fath aberth. A gallwn ddweud wrth ein cyfeillion - "I know because I was there!"

Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf., Lower Cathedral Road, Caerdydd; Ffôn: (0222) 396262.